Cynnal a Gwella'r ysgolion
Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes

MAWRTH 07

RHONDDA CYNON TAF

Cyflwyniad— Steve Lamb, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cynnal a Gwella'r Ysgolion

Yn y cylchlythyr yma, hoffen ni groesawu Esther Thomas, Pennaeth newydd Gwasanaeth Materion Prif Ffrwd. Mae Ceirion Williams wedi bod yn llenwi'r swydd dros dro ers i Barbara Brown drosgwlyddo i Wasanaethau i Blant ac mae e wedi gwneud swydd ardderchog. Mae e wedi mynd yn ôl i ailgydio yn ei swydd bwysig yng Ngwasanaeth Cynnal Ymddygiad. Ar yr un pryd hoffen ni ddiolch i Peter Thomas am ei waith da yn arwain Carfan Cynnal Ymddygiad dros gyfnod dros dro. Gan fod Carfan Prif Ffrwd yn llawn nawr, mae modd inni ddisgwyl rhagor o lwyddiannau oddi wrth y gwasanaeth yma sy wedi ennill clod am ei waith.

Anghenion Addysg Arbennig

Gweithdai drama i hyrwyddo'r celfyddydau ymhlith Plant

Mae gweithdai drama wedi'u cynllunio ar gyfer pobl sydd â nam ar eu golwg wedi cael eu cynnal yn Rhondda Cynon Taf.

Cwmni *UCAN productions* a gyflwynodd y prosiect. Cafodd y cwmni cydweithredol yma, sydd ddim yn gwneud elw, ei sefydlu er mwyn gofalu bod pobl ifainc a chyda nhw nam ar eu golwg yn cael y cyfle i fanteisio ar y celfyddydau. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n noddi'r prosiect.

Roedd gweithdai yn Ysgol Gyfun Tonyrefail, Ysgol Gyfun Blaen-gwawr ac yn y *Little Theatre* yn Aberdâr.

Mynychodd pobl ifainc a chyda nhw nam ar eu golwg a'u ffrindiau y gweithdai rhwng mis Ionawr a mis Mawrth. Ar ôl y gweithdai, perfformiodd y disgyblion mewn achlysur arbennig yn Theatr y Colisëwm yn Aberdâr ar 10fed Mawrth.

Sefydlodd Bernard Latham a'i wraig Jane *UCAN productions.* Mae Bernard wedi actio yn 'Hollyoaks' a 'Pobol y Cwm'.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn rhoi tua £5000 o Gronfa Lotri i UCAN. Mae UCAN wedi derbyn 'Gwobr Hyrwyddwr Plant' Lotri Genedlaethol yn ddiweddar.

I gael rhagor o wybodaeth am y gwmni UCAN productions a'i waith gyda phobl ifainc, galwch heibio i'w wefan
www.ucanproductions.org

Seminar Cynllun Braenaru (Pathfinder) ar gyfer pobl ôl-16

Cafodd seminar a oedd yn dathlu cynnydd y consortiwm a phwysleisio'i heriau am y dyfodol ei gynnal yn swyddfa ESIS ar 5ed Mawrth. Atebodd panel, gan gynnwys Mike Keating, y Cynghorydd Mike Forey, Jan Knight - Pennaeth Coleg Morgannwg a Jane Timmins o Lywodraeth y Cynulliad, gwestiynau yn ystod y bore er mwyn blaenoriaethu camau gweithredu ar gyfer 2007 ymlaen.

Cyfnod Arbrofol Dysgu Rhithwir

Mae 9 ysgol wedi bod yn paratoi adnoddau dysgu rhithwir ôl-16 oed ar y cyd â Choleg Morgannwg i'w rhannu gyda phob ysgol gynradd. Byddan nhw ar gael ar wefan ADR *Simply Click*. Mae pynciau'n cynnwys Ffiseg, Bioleg, Hanes, Busnes, Peirianneg, Electroneg a Thrin gwallt. Bydd seminar yn y Brifysgol, fore Mawrth 27ain Mawrth 2007 i roi sylw i'r gwaith yma.

Cynadleddau ac Achlysuron

Seminar Datblygu Proffesiynol (wedi'i ail-drefnu) dydd Mawrth 27ain Mawrth
Inside Out, Outside In (y Blynyddoedd Cynnar) dydd Mercher 28ain Mawrth
Cynhadledd Ysgolion yn eu Cymuned dydd Iau 29ain Mawrth

Dolennau cyswllt: Carfanau Cynnal a Gwella'r Ysgolion:

Gwella'r Ysgolion
01443 744035/6
(Cynradd ac Uwchradd)

Materion Prif Ffrwd
01443 744015

ESIS
01443 827500

Sort Orau
01443 744386

Llywodraethu a Chysylltiadau
01443 744180

Gwasanaeth Cerdd
01443 744017

Cylch Gwella'r Ysgolion: Cynrychiolwyr y Penaethiaid

Gill Coleman –
Ysgol Gynradd Dinas Isaf
Lisa Bailey –
Ysgol G Trerobart
Andrew Manley –
Ysgol G Hirwaun
Marian Roberts –
Ysgol GG Bodringallt
Pat O'Malley –
Ysgol G Parc-y-Darren
David Davies –
Ysgol G y Cefn
Gareth Evans—Y G Y Dolau
Philippa Thomas— Y Comin
Carol Parker— Y B Cwmaman
Ann Morris – Ysgol Gynradd Llanhari
Elaine Keeble – Tonyrefail
David Murphy –
Ysgol Ioan Fedyddiwr
Rosemary Ripley –
Bryncelynnog
Stephan Parry – Tonypandy
Ian Machin –
Ysgol Aberdâr y Bechgyn

Gwasanaeth Cerdd Rhondda Cynon Taf

Rydyn ni wedi dechrau cynllunio am drydedd ŵyl Gerdd Ysgolion Rhondda Cynon Taf flynyddol. Bydd yr ŵyl yn para tridiau, yn dechrau 11eg Mehefin, a bydd hi'n cael ei chynnal yn y Colisëwm yn Aberdâr. Mae'r ddau achlysur blaenorol yn theatr y Parc a'r Dâr yn Nhreorci wedi bod yn llwyddiannus dros ben. Dydy'r ŵyl ddim yn gystadleuaeth ond yn hytrach mae'n ddathliad o Gerdd a Dawns Ysgolion Cynradd. Fodd bynnag, bydd yr ysgolion yn derbyn adborth.

Yn y gorffennol mae perfformiadau wedi cynnwys; recorders, grwpiau o offerynwyr, dosbarthiadau yn canu gyda'u gilydd, corau, sioeau cerdd byr, perfformiadau gydag offerynnau taro yn yr ystafell ddosbarth, telynau, drymiau o'r Affrig, clychau llaw a dawns draddodiadol a chreadigol. Mae croeso i bawb gymryd rhan beth bynnag eu safon. Mae'r ŵyl yn rhoi cyfle gwych i ddisgyblion i berfformio y tu allan i'r ysgol a mwynhau doniau a chyraeddiadau pobl eraill.

Yn y gorffennol, mae hyd at 25 o ysgolion cynradd wedi cymryd rhan. Oherwydd ein bod ni'n cynnal yr achlysur yng Nghwm Cynon eleni rydyn ni'n gobeithio y bydd ysgolion newydd, yn ogystal â'r rheiny sydd wedi cymryd rhan o'r blaen, yn cyfrannu.

Rydyn ni wedi anfon gwybodaeth i bob Ysgol Gynradd. Os dydych chi ddim wedi derbyn y ffurflen gais cysylltwch â Rachel Kilby.

Mae Cymdeithas Gerdd yr ysgolion wedi cynnal *Cathedrals Music Festival* am 2 flynedd. Bydd yr ŵyl yn cael ei chynnal yn Eglwysi Cadeiriol Caerwrangon a Llandaf. Trwy ffurfio côr mawr mae'r ŵyl yn dathlu cerddoriaeth yr ysgolion cynradd. Mae croeso i ysgolion ledled Cymru gymryd rhan yn yr ŵyl yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ar 26ain Mehefin. Mae ysgolion RhCT sy'n cymryd rhan yn cynnwys Ysgol Gynradd Aberdâr yr Eglwys yng Nghymru; Caegarw; y Darren-las; Gwaunmeisgyn; y Ddraenen-wen a Llanilltud Faerdref.

Rachel Kilby - Gwasanaeth Cerdd ar 01443 744017.

Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad

Llongyfarchiadau i Catherine Huntley, Athrawes Cynnal Ymddygiad yng nghylch Taf-Elái sydd newydd gael ei thystysgrif Ôl-raddedig am ei gwaith 'Understanding and Supporting Children with Social, Emotional and Behavioural Difficulties'. Bwrsariaeth Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru sy wedi talu am astudiaethau Catherine.

Cafodd Karen Williams, sy'n dysgu pobl sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun, ei henwebu ar gyfer gwobr 'Athrawes Orau' Valleys Radio. Derbyniodd Karen ei gwobr yng Ngwesty Maes Manor. Mae hi'n haeddu'i gwobr yn fawr iawn

Eleanor Aubrey
Uwch Gydlynydd Gweithredol

SYLWEDDAU A'R FFEITHIAU (SAFF)
Galwch heibio i www.getsortedwales.co

Gwaith gwrth-fwlio RhCT

Mae bwlio yn fater pwysig sy'n effeithio ar fywydau llawer o bobl ifainc. Mae'r cyfryngau wedi rhoi llawer o sylw iddo yn ddiweddar.

Mae cael eich bwlio yn brofiad ofnadwy. Mae'n effeithio ar iechyd meddwl a lles plentyn neu berson ifanc gydag effeithiau andwyol dros y tymor hir, yn dal gyda phobl a hwythau'n oedolion. Ymhlith yr effeithiau gallai fod: diffyg hunan-barch a hyder; datblygiad emosiynol gwael a phroblemau iechyd y meddwl; cyflawniad a chyraeddiadau academaidd gwael; camddefnyddio sylweddau maes o law.

Mae bwlio yn thema trawsbynciol yn Rhondda Cynon Taf ac mae'n gwireddu blaenoriaethau allweddol sawl cynllun strategol. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater yma'n effeithiol, comisiynodd yr AALl Garfan Sort Orau. Amcan y garfan yw paratoi adroddiad ymgynghori am farn a sylwadau pobl RhCT ynglŷn â mater bwlio.

Yn ôl y dystiolaeth yn yr adroddiad, er bod cryn dipyn o waith yn cael ei gynnal yn yr ysgolion a gwasanaeth ieuenctid o ran mynd i'r afael â materion bwlio, a llawer o enghreifftiau o arferion arloesol, sy'n dod â phobl yn rhan o bethau, mae nifer o anghenion ynghylch datblygu hefyd.

Yn ystod Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Faterion Bwlio ym mis Tachwedd 2006, cynhaliodd yr AALl gynhadledd i hyrwyddo enghreifftiau o arfer dda a'r gwasanaethau a'r adnoddau sydd ar gael.

Penododd yr AALl Swyddog Gwrth Fwlio dros dro yn ogystal. Bydd hi'n mynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad ac hyrwyddo arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd hi'n rhoi cymorth i ddiweddaru polisïau sy'n bodloni'r safonau gofynnol. Mae cyfeirlyfr o wasanaethau ac adnoddau wedi cael ei baratoi ac mae e wedi cael ei ddosbarthu ymhlith ysgolion. Mae Datganiad o Bolisi Gwrth-Fwlio wedi cael ei baratoi a'i gyflwyno yng nghyfarfodydd y Clystyrau.

Bydd gwaithdy yn cael ei gynnal 20 Mawrth 2007 er mwyn mynd â'r gwaith yma yn ei flaen. Y bwriad ydy datblygu Strategaeth Wrth-fwlio aml-asiantaeth ar gyfer RhCT a fydd yn pennu'r ffyrdd i'r AALl weithio ar y cyd â phobl eraill er mwyn mynd i'r afael â'r mater yma'n effeithiol.

Jayne Jones

Os hoffech chi gyfrannu at rifyn nesaf y cylchlythyr - rhoi'r newyddion diweddaraf ynghylch cynllun neu wybodaeth hoffech chi'i rhannu gyda ni er enghraifft - ffoniwch Kris Oakey – 01443 744036 – yn Nhŷ Trevithick.